Protocol

Rolau a Chyfrifoldebau

CAFFAEL A'R CABINET

Ebrill 2021

www.bromorgannwg.gov.uk

Cynnwys

1	Egwyddorion Craffu Effeithiol	3
2	Diben y Protocol	3
3	Amcanion	4
4	Rôl y Pwyllgorau Craffu	5
5	Dwyn y Cabinet i Gyfrif	6-7
6	Y berthynas rhwng y Cabinet a Chraffu	8
7	Rhaglenni Gwaith ac Agendâu	9-10
8	Ethos Cyfarfod Pwyllgor Craffu	11
9	Presenoldeb Aelodau'r Cabinet yng Nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu	12-13
10	Presenoldeb Swyddogion yng Nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu	14
11	Ymatebion Aelodau'r Cabinet i Gwestiynau gan Bwyllgorau Craffu	15
12	Galw Penderfyniad gan y Cabinet “i Mewn”	16
13	Argymhellion a wneir gan Bwyllgorau Craffu	17
14	Cyfarfodydd rhwng Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu	17
15	Y cyhoedd yn siarad mewn Pwyllgorau Craffu	18

1 Egwyddorion Craffu Effeithiol

1.1 Mae'r **Ganolfan Llywodraethu a Chraffu (a elwid gynt yn Ganolfan Craffu Cyhoeddus (CCS))** wedi nodi'r pedair egwyddor ganlynol a **diweddarwyd ar 08 Medi, 2020** yn sail i graffu effeithiol:

- **Bod yn 'gyfaill beirniadol' adeiladol (her i'r Weithrediaeth ("Cabinet"))**
- **Chwyddo llais a phryderon y cyhoedd**
- **Wedi ei arwain gan bobl annibynnol sy'n cymryd cyfrifoldeb am eu rôl**
- **Ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**

2 Diben y Protocol

2.1 Nod y Protocol hwn yw cynorthwyo holl Aelodau 5 Pwyllgor Craffu'r Cyngor, unrhyw Aelod a all fod yn aelod o Grŵp Gorchwyl a Gorffen Craffu a holl Aelodau'r Cabinet (yn cynnwys yr Arweinydd a 6 arall o Aelodau Cabinet). Mae'n rhoi arweiniad ar y gwahanol ffyrdd y mae'n ofynnol i Aelodau ryngweithio er mwyn galluogi'r Awdurdod i gyflawni swyddogaeth Graffu effeithiol.

2.2 Mae'r Protocol hefyd yn amlinellu'r fframwaith a'r gweithdrefnau sy'n sail i weithredu Craffu ac yn rhoi arweiniad ar rôl Swyddogion sy'n cefnogi'r broses hon.

2.3 Gellir diweddaru'r Protocol o bryd i'w gilydd er mwyn ystyried argymhellion Archwilio Cymru.

2.4 Mae Archwilio Cymru wedi argymell y dylai Awdurdodau Lleol archwilio dulliau gwahanol a mwy arloesol o ymgymryd â gweithgarwch craffu ac y dylent fod yn fwy arloesol o ran sut y maen nhw'n ymgysylltu â'r cyhoedd yn eu gweithgarwch craffu.

3 Amcanion

3.1 Amcanion y Protocol hwn yw:

(i) sefydlu fframwaith cadarnhaol ac adeiladu ar y gweithdrefnau a nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, sy'n bodoli i alluogi'r Pwyllgorau Craffu i weithio'n effeithiol;

(ii) gwneud y mwyaf o effeithiolrwydd personol Aelodau Craffu, Aelodau'r Cabinet a Swyddogion drwy eu galluogi i ddeall eu pwerau, eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn mewn perthynas â'r swyddogaeth Graffu;

(iii) hyrwyddo a chynnal ethos o gyd-barch, ymddiriedaeth a chwrteisi yn y berthynas rhwng Aelodau Craffu, Aelodau'r Cabinet a Swyddogion, a hinsawdd o fod yn agored sy'n arwain at drafod adeiladol, ond heriol;

(iv) creu diwylliant o ddwyn y Cabinet i gyfrif ar ran yr etholaeth, drwy fonitro effeithiolrwydd polisïau'r Cyngor a thrwy adolygu ei berfformiad yn rheolaidd mewn perthynas â darparu gwasanaethau, gyda'r nod o sicrhau gwelliannau i wasanaethau;

(v) diffinio ac egluro rôl y Cabinet fel rhan annatod o'r broses Graffu; a

(vi) sicrhau lefel briodol o aliniad rhwng gwaith Craffu a pholisïau a blaenoriaethau'r Cabinet a hefyd â gwaith y gwahanol gyrff Archwilio, Rheoleiddio ac Arolygu.

4 Rôl y Pwyllgorau Craffu

4.1 Ceir gwybodaeth fanwl am y broses Graffu yn **Adran 7** Cyfansoddiad y Cyngor. Yn gryno, yn eu Cylch Gorchwyl, gall Pwyllgorau Craffu:-

(i) adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wneir neu gamau a roddir ar waith mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r Cyngor, boed hynny gan y Weithrediaeth neu ran arall o'r Cyngor, ond ac eithrio unrhyw fater a nodir yn benodol yng nghylch gorchwyl unrhyw Bwyllgor Craffu arall;

(ii) gwneud adroddiadau neu argymhellion i'r Cyngor neu'r Cabinet mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaethau;

(iii) cynorthwyo'r Cyngor a'r Cabinet o ran datblygu'r a'r fframwaith polisi a chyllideb;

(iv) ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar ardal y Cyngor neu'r bobl sy'n byw ynddi; a

(v) arfer yr hawl i "Alw i Mewn", i ailystyried penderfyniadau a wnaed, ond nad ydynt wedi'u gweithredu eto, gan y Weithrediaeth a'r Swyddogion.

4.2 Wrth ymgymryd â'r uchod, bydd Pwyllgorau Craffu, yn benodol, yn rhoi sylw i:-

- gydymffurfio â pholisïau'r Cyngor;
- ystyried yr angen am newidiadau i bolisi a/neu arfer;
- Gwelliant Parhaus.

5 Dwyn y Cabinet i Gyfrif

Beth mae'n ei olygu a sut mae'n gweithio?

5.1 Un o egwyddorion sylfaenol Craffu yw'r gallu i ddwyn y Weithrediaeth (h.y. y "Cabinet") i gyfrif. Egwyddor arddull "Cabinet" llywodraeth leol yw y bydd y broses o wneud penderfyniadau, drwy gael Gweithrediaeth fach sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau, yn gyflymach ac yn fwy effeithlon. Fodd bynnag, mae angen sicrhau pobl leol bod y grŵp bach hwn o Aelodau'n gwneud penderfyniadau'n effeithiol ac yn gweithredu er budd gorau'r gymuned leol y maent yn ei gwasanaethu.

5.2 Gall dwyn y Cabinet i gyfrif olygu craffu ar benderfyniadau gweithredol ar nifer o wahanol gamau yn y broses o wneud penderfyniadau:

- cyn i benderfyniadau gael eu gwneud
- cyn iddynt gael eu gweithredu; ac
- ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith.

Ni ddylai dwyn y Cabinet i gyfrif fod yn seiliedig ar wrthdaro – mae'n ymwneud mwy ag Aelodau anweithredol yn darparu her "cyfaill beirniadol" i'r Cabinet a Deiliaid Portffolio unigol y Cabinet. Dylid cofio nad yw Craffu'n ymwneud â herio unigolion neu bersonoliaethau ond mae'n ymwneud â herio penderfyniadau a sicrhau gwelliant lle y bo'n bosibl. Ni ddylai dwyn y Cabinet i gyfrif fod yn seiliedig ychwaith ar deyrngarwch i bleidiau gwleidyddol.

Mae nifer o ffyrdd y gall y broses Graffu weithio:

- defnyddio'r "Weithdrefn Galw i Mewn", lle gall unrhyw Aelod unigol, o fewn 5 diwrnod i gyhoeddi penderfyniad gan y Cabinet, herio neu "alw'r penderfyniad i mewn". Mae hyn fel arfer yn arwain at gyfarfod perthnasol y Pwyllgor Craffu, i adolygu'r penderfyniad, a gall y Pwyllgor wneud argymhellion penodol i'r Cabinet.

Mae'r ffurflen Galw i Mewn ar gael yn:
https://staffnet.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/MemberNet/Democratic-Services/2017/Call-in-Proforma.doc

- "Ceisiadau i Ystyried" – gall unrhyw Aelod ofyn am gynnwys eitem mewn unrhyw Bwyllgor Craffu drwy gyflwyno ffurflen "Cais i Ystyried".

Mae'r ffurflen Cais i Ystyried ar gael yn;
https://staffnet.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/MemberNet/Democratic-Services/2017/Request-for-Consideration-of-Matter-by-Scrutiny-Committee.doc

- Mae pob Aelod yn derbyn dolen electronig at holl agendâu'r Cabinet fel mater o drefn;

- Archwilio Blaenraglen Waith y Cabinet, a gaiff ei chyhoeddi'n flynyddol a'i diweddaru bob chwarter. Bydd y Rhaglen Waith (cyn belled ag y bo modd) yn rhoi rhybudd ymlaen llaw o faterion i'w hystyried gan y Cabinet a'r dyddiad y bydd hyn yn digwydd. Mae hyn yn rhoi cyfle cynnar i Aelodau Craffu nodi'r hyn sydd ar y gweill ac ystyried a ddylai Craffu fod yn rhan o'r broses. Mae hefyd yn hanfodol bod Rhaglen Waith y Cabinet yn cael ei hystyried pan fydd pwyllgorau Craffu yn llunio eu Rhaglenni Gwaith eu hunain;

- Galw ar Ddeiliad Portffolio'r Cabinet i roi tystiolaeth – gall hyn fod mewn perthynas ag eitem sy'n cael ei hystyried gan y Pwyllgor Craffu llawn neu waith Grŵp Gorchwyl a Gorffen mater penodol;

- Cyfarfodydd penodol gyda Deiliaid gwahanol Bortffolios y Cabinet **i'w cynnal ddwywaith y flwyddyn, lle bydd yr Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd, Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn cwrdd er mwyn gallu datblygu a chytuno ar Flaenraglenni Gwaith y Cabinet a Chraffu.**

- Derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am ymatebion y Cabinet i'r Pwyllgor Craffu - argymhellion (a elwir yn "olrhain penderfyniadau").

6 Y berthynas rhwng y Cabinet a Chraffu

6.1 Mae'r berthynas rhwng y Cabinet a Chraffu yn cael ei rheoli'n rhannol gan y gyfraith ac yn rhannol gan Gyfansoddiad y Cyngor. Diben yr adran hon o'r Protocol yw nodi'r egwyddorion a ddilynir gan y Cabinet ac Aelodau Craffu.

6.2 Mae gan y Cabinet a Chraffu swyddogaethau a chyfrifoldebau gwahanol iawn. Fodd bynnag, nod y ddau ddylai fod i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Mro Morgannwg.

Mae'r pum egwyddor ganlynol yn nodi sut y dylai'r berthynas waith rhwng y Cabinet a Chraffu weithredu:

1. Mae'r Cabinet a Chraffu yn cydnabod bod gan y ddau ohonynt swyddogaethau a chyfrifoldebau gwahanol a bod y cyfraniad y gall y ddau ei wneud i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Mro Morgannwg yn wahanol.

2. Bydd y Cabinet a Chraffu yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd mewn modd cadarnhaol. Mae'r Cabinet yn cydnabod bod gan Graffu nifer o hawliau, megis "Galw i Mewn" a'i gwneud yn ofynnol i Aelodau'r Cabinet fynychu ei gyfarfodydd, a bydd yn parchu'r hawliau hynny. Bydd Pwyllgorau Craffu yn arfer yr hawliau hynny'n gyfrifol.

3. Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn y berthynas waith rhwng y Cabinet a Chraffu yn ceisio gweithio o fewn ysbryd o barch at ei gilydd a her adeiladol.

4. Bydd y berthynas rhwng y Cabinet a Chraffu yn agored ac yn dryloyw.

7 Rhaglenni Gwaith ac Agendâu

7.1 Mae craffu'n fwyaf effeithiol pan fydd yn canolbwyntio ar nifer gyfyngedig o bynciau a blaenoriaethau manwl. Wrth ystyried eitemau agenda, dylai Pwyllgorau Craffu ystyried y gwerth a'r effaith debygol a geir o unrhyw adroddiad neu adolygiad. Bydd angen cydbwyso hyn yn ofalus yn erbyn yr amser a'r adnoddau sydd eu hangen i ymgymryd â'r gweithgaredd.

7.2 Mae Blaenraglenni Gwaith yn gyfres o ddogfennau sy'n rhestru pynciau y mae (a) y Cyngor a (b) y Cabinet yn bwriadu penderfynu arnynt ac (c) pa fusnes y bydd y Pwyllgorau Craffu yn ei ystyried a phryd y trafodir y materion hynny. Nid yw hyn yn atal materion brys neu annisgwyl rhag cael eu hystyried. Bydd pob un o'r cyrff hyn yn gyfrifol am eu Rhaglenni Gwaith eu hunain. Bydd Blaenraglenni Gwaith Blynyddol yn cael eu paratoi o ddechrau'r Flwyddyn Fwrdeisiol. Cânt eu hategu gan Raglenni Gwaith chwarterol wedi'u diweddaru. Dylai Pwyllgorau Craffu roi sylw i'r angen i ystyried alinio â Rhaglenni Gwaith cyrff Archwilio, Rheoleiddio ac Arolygu (gweler Adran 7 hefyd.)

7.3 Gall y Cabinet hefyd ofyn i Bwyllgor Craffu helpu i gynnal adolygiad i helpu i ddatblygu polisi.

7.4 Bydd Blaenraglen y Cabinet yn cynnwys manylion (cyn belled ag y bo'n hysbys) o'r meysydd hynny y bwriedir iddynt fod yn destun "Craffu Cyn y Cabinet" cyn gwneud penderfyniad ffurfiol. Dylai'r Rhaglen Waith, yn ei thro, fod yn elfen allweddol, pan fydd Rhaglenni Gwaith y Pwyllgorau Craffu yn cael eu llunio.

7.5 Dylai'r Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet ystyried pa eitemau y bwriedir iddynt fod yn destun "Craffu Cyn y Cabinet". Dylid mabwysiadu dull cyson wrth benderfynu ar eitemau o'r fath.

7.6 Fel arfer yng nghyfarfod cyntaf y Flwyddyn Fwrdeisiol, bydd pob Pwyllgor Craffu yn ystyried ac yn pennu ei flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod, sydd i'w cynnwys yn y Rhaglenni Gwaith. Unwaith eto, mae'n hanfodol bod Rhaglen Waith y Cabinet yn cael ei hystyried wrth i Bwyllgorau Craffu lunio eu Rhaglenni Gwaith eu hunain.

7.7 Gellir gwahodd yr Aelod(au) Cabinet priodol i fod yn bresennol i roi sylwadau ar flaenoriaethau arfaethedig y Pwyllgor o fewn y Rhaglen Waith. Bydd hyn yn llywio'r broses ddethol a gellir gwahodd yr Aelod(au) Cabinet i gynorthwyo'r Pwyllgor drwy roi cyngor ar wrthdaro posibl rhwng pynciau Craffu arfaethedig a meysydd datblygu polisi arfaethedig.

7.8 Bydd Rhaglenni Gwaith Pwyllgorau Craffu yn cael eu monitro'n rheolaidd, gyda chyngor yn cael ei roi gan Swyddogion o ran pryd y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i Aelodau'r Pwyllgorau adolygu a diweddaru eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd.

7.9 Dylai Rhaglenni Gwaith cyrff Archwilio, Rheoleiddio ac Arolygu gyd-fynd yn agos â Rhaglenni Gwaith y Pwyllgorau Craffu, a chyflwyno adroddiadau perthnasol i'r

Aelodau mewn modd amserol a chyson.

7.10 Bydd agendâu'r Pwyllgor Craffu, ar gyfnodau rheolaidd, yn cynnwys unrhyw wybodaeth rheoli perfformiad berthnasol sydd ar gael. Diben yr eitem hon fydd cynorthwyo'r Aelodau i fonitro perfformiad gwasanaethau o fewn eu cylch gwaith yn erbyn targedau allweddol a gwneud argymhellion.

7.11 Bydd cynllunio ar gyfer cyfarfodydd unigol Pwyllgorau Craffu yn seiliedig ar system o "gynadleddau agenda". Mae Cynadleddau Agenda wedi cael eu cydnabod fel mecanwaith amhrisiadwy yn y broses Graffu. Yn bresennol bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd a'r Uwch Swyddogion perthnasol.

7.12 Gellir cyflwyno adroddiadau i Bwyllgor Craffu drwy un o'r llwybrau canlynol:

(i) Adroddiad a gyfeiriwyd at Bwyllgor Craffu gan y Cabinet i'w ystyried;
(ii) Adroddiad a gyflwynwyd yn uniongyrchol i Bwyllgor Craffu yn rhan o'i Raglen Waith;
(iii) O ganlyniad i'r weithdrefn 'Galw i Mewn';
(iv) O ganlyniad i eitem "Cais i Ystyried" a gyflwynwyd gan Aelod;
(v) Ar ffurf geirda gan Bwyllgor Craffu arall neu Bwyllgor arall (e.e. Pwyllgor Archwilio).

7.13 Dylid dosbarthu adroddiadau sydd "er gwybodaeth" i Aelodau y tu allan i drefniadau ffurfiol agenda'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu drwy'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu.

8 Ethos Cyfarfodydd Pwyllgor Craffu

8.1 Dylai Pwyllgorau Craffu geisio hyrwyddo awyrgylch agored a dylent ymdrechu i sicrhau bod cwestiynau a thrafodaethau'n digwydd mewn hinsawdd o gyd-barch ac ymddiriedaeth rhwng Aelodau'r Pwyllgor Craffu, yr Aelod(au) Cabinet, Swyddogion a chyfranogwyr eraill.

8.2 Fel arfer, dylai Aelodau'r Pwyllgor Craffu fod yn barod i ofyn cwestiynau treiddgar a heriol i Aelodau'r Cabinet a Swyddogion, a ddylai, yn eu tro, fod yn barod i ymateb i unrhyw gwestiwn a ofynnir. Fodd bynnag, dylai Aelodau'r Pwyllgor Craffu fod yn ymwybodol o'r ffaith nad yw Aelodau a Swyddogion y Cabinet bob amser mewn sefyllfa i ateb pob cwestiwn ar unwaith neu'n fanwl.

8.3 Dylai Aelodau'r Cabinet, i'r graddau y bo'n bosibl, ragweld a bod yn barod i ateb cwestiynau ar benderfyniadau a wneir, neu y cynigir eu gwneud, sy'n dod o fewn eu cylch gwaith. Dylai Aelodau'r Cabinet hefyd werthfawrogi cyfraniad Aelodau'r Pwyllgor Craffu sy'n codi cwestiynau a dylent ymateb mewn modd priodol a phroffesiynol.

8.4 Bydd Cadeirydd y cyfarfod **(boed yn un corfforol neu'n rhithwir)** yn sicrhau bob amser y bydd cynnal y cyfarfod yn cael ei gynnal yn deg a bod yr holl gyfranogwyr yn cael eu trin yn gwrtais.

8.5 Gofynnir cwestiynau i swyddogion gan Aelodau'r Pwyllgor mewn modd urddasol a pharchus. Dylai'r ymatebion fod yn glir ac yn gryno gyda Swyddogion yn ymwybodol nad oes gan aelodau o'r cyhoedd, a allai fod yn bresennol, wybodaeth fanwl lawn am y pwnc sy'n cael ei drafod.

8.6 Dylai'r Cadeirydd, gyda chefnogaeth y Swyddogion, roi arweiniad ac arweinyddiaeth i'r Pwyllgor ar bob mater Craffu a dylai hyrwyddo rôl y Pwyllgor yn y gwaith o wella gwasanaethau a monitro effeithiolrwydd polisïau'r Cyngor.

8.7 Cynhelir cyfarfodydd y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu yn ddarostyngedig i'r darpariaethau perthnasol yng Nghyfansoddiad y Cyngor, gan gynnwys bod yn rhaid eu cynnal yn gyhoeddus fel arfer, oni bai y bernir bod angen ystyried mater heb y cyhoedd a'r wasg yn bresennol.

8.8 Dylid cynnal cyfarfodydd mewn modd trefnus a phroffesiynol, nad yw'n ymosodol nac yn wrthdrawiadol, gyda chwrteisi'n cael ei ddangos i'r cyfranogwyr i gyd. Dylai Aelodau roi sylw i God Ymddygiad yr Aelodau a'r Protocol ar Gysylltiadau Aelodau/Swyddogion fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

8.9 Dylid cynnal cyfarfodydd Pwyllgor Craffu gan ddefnyddio cynllun ystafell sy'n briodol at y busnes sy'n cael ei gynnal, **pan nad ydynt yn cael eu cynnal o bell.**

8.10 Dylai Pwyllgorau Craffu gadw'r canllawiau statudol y dylid gwneud gwaith craffu mewn modd amhleidiol mewn cof.

9 Presenoldeb Aelodau'r Cabinet yng Nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu

9.1 Bydd gan bob Cadeirydd Pwyllgor Craffu ddisgresiwn wrth benderfynu a oes angen Aelod o'r Cabinet i fod yn bresennol mewn cyfarfod Pwyllgor. Fodd bynnag, gwahoddir Aelodau'r Cabinet fel mater o drefn i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu fel mater o drefn at ddibenion cael eu dwyn i gyfrif mewn perthynas â phenderfyniadau a wneir.

9.2 Anogir Aelodau'r Cabinet i fynychu cyfarfodydd i ddeall barn Aelodau Craffu ar unrhyw faterion sy'n dod o fewn eu cylch gwaith.

9.3 Bydd trafodaeth agored a chyfnewid barn yn bwysig i'r Aelod(au) Cabinet a'r Aelodau Craffu, yn enwedig lle rhoddir ystyriaeth i ddatblygu cyllideb neu fframwaith polisi'r Cyngor.

9.4 Yn dibynnu ar natur yr eitem ar yr agenda, gofynnir i naill ai'r Aelod Cabinet neu'r Uwch Swyddog gyflwyno'r eitem. Dylai aelodau'r Pwyllgor fod yn ymwybodol, er y gall Swyddogion ymateb i gwestiynau penodol ynghylch perfformiad gweithredol gwasanaeth, y dylid cyfeirio'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad at yr Aelod(au) Cabinet.

9.5 Os yw'n ofynnol i Aelod o'r Cabinet fod yn bresennol mewn Pwyllgor Craffu am reswm penodol, yna dylai gael digon o wybodaeth o ran pam ei fod yn cael ei wahodd i'r cyfarfod. Dylid rhoi gwybod iddo'n ysgrifenedig am hyn, os yn bosibl, a dylid ei gopïo i Aelodau'r Pwyllgor fel bod pawb yn deall ar ba sail y maent yn bresennol.

9.6 Os oes dryswch ynglŷn â'r rhesymau pam mae Aelod o'r Cabinet yn mynychu cyfarfod penodol, byddai'n ddefnyddiol i'r Cadeirydd roi eglurhad i'r Pwyllgor ar ddechrau'r cyfarfod. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cyfarfod yn effeithiol ac yn gwneud y defnydd gorau
o amser pob Aelod.

9.7 Er y gellir gwahodd yr Aelod Cabinet i adrodd ar eitem benodol ar yr agenda, o ystyried y ffaith ei fod yn y cyfarfod, derbynnir y gall cwestiynau grwydro i feysydd eraill (ar yr amod eu bod yn parhau'n berthnasol i eitemau agenda). Dylai pob parti ddeall y bydd yr Aelod Cabinet yn ymateb hyd orau ei allu a'i wybodaeth am gwestiynau penodol. Fodd bynnag, os yw'r Aelod Cabinet wedi cael gwahoddiad ar gyfer pwnc penodol, yna efallai y bydd angen iddo/iddi wneud gwaith ymchwil pellach er mwyn rhoi atebion i gwestiynau ar bynciau eraill.

9.8 Ni fydd terfyn amser \ar waith i'r cwestiynau a ofynnir neu'r ymatebion a roddir ac ni fydd terfyn ar nifer y cwestiynau hynny y gall Aelod eu gofyn mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad penodol, ac eithrio i'r graddau y bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am gynnal busnes y cyfarfod yn effeithiol.

9.9 Os bydd angen, gellir gofyn i Gadeirydd / Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu fynychu cyfarfod o'r Cabinet Busnes i drafod unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor sy'n ymwneud yn bennaf ag unrhyw argymhellion Gorchwyl a Gorffen neu newidiadau arfaethedig i Bolisi.

10 Presenoldeb Swyddogion yng Nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu

10.1 Fel arfer, Uwch Swyddogion sydd â chyfrifoldeb dros eitemau ar yr agenda sy'n cael ei thrafod fydd yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Craffu. Rôl yr Uwch Swyddog fydd cynorthwyo'r Pwyllgor drwy ddarparu cyngor proffesiynol a sicrhau mynediad at wybodaeth a phersonél perthnasol. Fodd bynnag, os yw'r eitem agenda yn ymwneud â "Galw i Mewn", bydd yr Aelod Cabinet perthnasol yn ymateb yn y lle cyntaf.

10.2 Bydd disgwyl i Uwch Swyddogion gyfrannu'n rhagweithiol at drafodaeth ar eitem ar yr agenda. Gall fod yn ofynnol i swyddogion fynychu Pwyllgor Craffu i gyflwyno adroddiad eitem agenda ac i ateb cwestiynau neu roi cyngor ynghylch agweddau gweithredol ar wasanaeth penodol. Bydd hyn yn caniatáu i Aelodau holi Swyddogion am effaith debygol unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Cabinet ac i Aelodau gasglu mwy o ddealltwriaeth ynghylch y rhesymau pam y cytunwyd ar gamau gweithredu.

10.3 Bydd aelodau Pwyllgor Craffu hefyd yn holi Swyddogion yn rheolaidd am faterion sy'n effeithio ar berfformiad gwasanaeth penodol ac i ofyn am ragor o fanylion am yr adnoddau sydd ar gael mewn gwasanaeth.

10.4 Dylai swyddogion sy'n bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu hefyd fod yn barod i gynorthwyo'r Aelod Cabinet i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor mewn ymateb i unrhyw gwestiwn a godir.

10.5 Yn gyffredinol, bydd presenoldeb Swyddogion perthnasol eraill naill ai yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu neu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gais y Cadeirydd, a fydd yn ystyried swyddog o ba lefel sydd ei angen.

10.6 Dylai Swyddog sy'n cael cais i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu wneud ymdrechion rhesymol i wneud hynny. Os na all Swyddog fod yn bresennol ar ddyddiad penodol, dylai hysbysu'r Cadeirydd (neu'r Swyddog perthnasol o fewn Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu) cyn gynted â phosibl, er mwyn cytuno ar y camau gweithredu mwyaf priodol, a all gynnwys presenoldeb cynrychiolydd arall.

10.7 Fel arfer, bydd disgwyl i Uwch Swyddogion perthnasol fynychu unrhyw gyfarfod o Bwyllgor Craffu lle bwriedir ystyried cais 'Galw i Mewn' mewn perthynas â'u gwasanaeth.

10.8 Caniateir i swyddogion adael cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu unwaith y bydd y drafodaeth ar yr eitem berthnasol wedi dod i ben. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd Swyddogion am aros ar gyfer eitemau eraill ar yr agenda, os ydynt yn teimlo y gallant ateb unrhyw gwestiynau a chyfrannu'n adeiladol at y drafodaeth. Dylai hyn fod o safbwynt gweithredol gwasanaeth yn unig ac ar gyfer gwasanaeth y mae'r Swyddog yn gyfrifol amdano.

11 Ymatebion Aelodau'r Cabinet i Gwestiynau o Gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu

11.1 Yn dilyn cwestiwn a godir yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu, gall Aelod o'r Cabinet ymateb yn y ffyrdd canlynol:-

(i) drwy ateb llafar uniongyrchol;

(ii) pan fo'r wybodaeth y gofynnir amdani wedi chyhoeddi gan y Cyngor neu rywun arall, drwy gyfeirio at y cyhoeddiad hwnnw; neu

(iii) pan fo Swyddog yn bresennol yn y cyfarfod, y gellir disgwyl yn rhesymol iddo fod mewn sefyllfa i roi ateb, drwy gyfeirio'r mater at y swyddog dan sylw;

(iv) pan na ellir rhoi'r ateb ar lafar yn gyfleus, drwy ateb ysgrifenedig i'w ddosbarthu ymhlith holl Aelodau'r Pwyllgor o fewn pum niwrnod gwaith; ac

(v) os na ellir rhoi'r ateb o fewn yr amserlen uchod, dylid rhoi esboniad byr am yr oedi a'r amserlen debygol ar gyfer ymateb i holl Aelodau'r Pwyllgor.

12 Galw Penderfyniad gan y Cabinet "i Mewn"

12.1 Pan wneir penderfyniad gan y Cabinet, cyhoeddir y penderfyniad fel arfer o fewn dau ddiwrnod gwaith i'r dyddiad y gwnaed y penderfyniad. Bydd y cyfnod 'Galw i Mewn' perthnasol yn dod i ben ar y pumed diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad.

12.2 Os caiff y "Galw i Mewn" ei dderbyn gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol, bydd y Pwyllgor Craffu perthnasol yn cael cyfle i drafod a gwerthuso rhinweddau'r penderfyniad. Bydd hyn yn digwydd o fewn ugain diwrnod gwaith i dderbyn y cais 'Galw i Mewn', heb gyfrif mis Awst.

12.3 Oni bai bod amgylchiadau esgusodol, byddai disgwyl i'r Aelod Cabinet perthnasol fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu pan fydd 'Galw i Mewn' yn cael ei ystyried. Derbynnir, fodd bynnag, fod Swyddogion mewn sefyllfa well yn aml i gyflwyno gwybodaeth fanylach a arweiniodd at y penderfyniad ac ystyrir bod hyn yn dderbyniol, er mai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ddylai gael ei ddal i gyfrif bob amser.

12.4 Dilynir y weithdrefn ganlynol pan fydd 'Galw i Mewn' yn cael ei ystyried:

(i) Y Cadeirydd yn amlinellu natur y cais;
(ii) Yr Aelod a "alwodd y penderfyniad i mewn" yn cael ei wahodd i egluro'r rhesymau dros y cais;
(iii) Y Cadeirydd wedyn yn gwahodd yr Aelod Cabinet i ymateb;
(iv) Gall y Pwyllgor wedyn ofyn cwestiynau i'r Aelod Cabinet, a gaiff ofyn i swyddog perthnasol ddarparu rhagor o wybodaeth os oes angen;
(v) Y Pwyllgor yn trafod y mater a gall ffurfio argymhellion i'w hystyried gan y Cabinet neu i'r Cyngor Llawn, a all, yn eu tro, gyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ystyried ymhellach.

12.5 Os na all yr Aelod Cabinet perthnasol ddod i gyfarfod pan fydd 'Galw i Mewn' yn cael ei ystyried, bydd Aelod Cabinet arall yn ceisio bod yn bresennol a bod yn atebol am y penderfyniad.

13 Argymhellion a wneir gan Bwyllgorau Craffu

13.1 Bydd cofnodion pob Pwyllgor Craffu yn cynnwys unrhyw argymhellion a wnaed yn ystod cyfarfod Pwyllgor a'r rhesymau dros yr argymhellion hynny. Bob chwarter, bydd Pwyllgorau Craffu yn monitro cynnydd pob argymhelliad, gyda diweddariadau'n cael eu darparu gan y Swyddogion perthnasol.

13.2 Bydd argymhellion y Pwyllgorau Craffu yn cael eu cyfeirio at y Cabinet cyn gynted â phosibl.

13.3 Os yw'r Cabinet wedi penderfynu peidio â gweithredu argymhelliad penodol a wnaed gan Bwyllgor Craffu, dylid nodi'r rheswm dros beidio â gwneud hynny. Bydd hyn yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor bob chwarter pan fydd y Pwyllgor yn ystyried ei broses 'olrhain penderfyniadau".

14 Cyfarfodydd rhwng Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu ac Aelodau'r Cabinet

14.1 Er bod y broses Graffu yn un gyhoeddus yn ei hanfod, cydnabyddir y bydd datblygu deialog anffurfiol rhwng Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu a'r Aelod(au) Cabinet perthnasol yn gwella'r rhyngweithio rhwng y ddwy swyddogaeth. Anogir deialog anffurfiol er mwyn caniatáu i'r Aelod(au) Cabinet ddeall safbwyntiau Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu ac i'r cadeiryddion ddeall safbwyntiau'r Aelod(au) Cabinet.

14.2 Bydd deialog o'r fath hefyd yn caniatáu i Gadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol a'r Aelod(au) Cabinet drafod polisïau mawr a phenderfyniadau allweddol sy'n debygol o gael eu datblygu dros y misoedd nesaf a rhoi cyfle i gyfrannu ymhellach at elfennau strategol y rhaglen waith.

14.3 Gallai deialog o'r fath hefyd ganiatáu ystyried rhaglenni gwaith Archwilio, Rheoleiddio ac Arolygu er mwyn sicrhau bod trefniadau adrodd wedi'u cynllunio'n dda ac wedi'u "cydgysylltu' yn llawn (yn enwedig yng nghyd-destun Blaenraglenni Gwaith y Cabinet a Chraffu).

15 Y cyhoedd yn siarad mewn Pwyllgorau Craffu

15.1 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi Canllaw i Siarad Cyhoeddus yng Nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu, gyda'r bwriad o wella gallu aelodau'r cyhoedd i siarad yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Craffu'r Cyngor. Mae copi o'r Canllaw ar gael ar wefan y Cyngor drwy'r ddolen isod:

(INSERT LINK WHEN AVAILABLE) -